Y sylfeini/conglfeini hyn yw'r rhagamodau ar gyfer sicrhau'r gwelliant cyflym wedi'i dargedu y mae'r Bartneriaeth am ei weld.

Yn achos gorllewin Cymru, maent yn fan cychwyn y mae'n rhaid datblygu'r ymdrech newydd, gyfun ar ei sail.




Mae rhagor o wybodaeth am y conglfeini i ategu'r gwaith o wireddu'r uchelgeisiau ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes i'w chael yma: https://endoflifecareambitions.org.uk/wp-content/uploads/2015/09/Ambitions-for-Palliative-and-End-of-Life-Care.pdf

# Crynhoi arfer gorau

**Yn rhan o'n hadolygiad o arfer gorau, buom yn ymchwilio i ystod eang o enghreifftiau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol cyfredol o arfer gorau, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol a fydd yn allweddol i ddatblygu unrhyw wasanaeth newydd**

**Model cyflawni gan y gweithlu cyffredin:**
Dylid ei fabwysiadu'n unol ag Adroddiad Sugar ym mis Mehefin 2008, lle mae staff ar draws y rhanbarth yn darparu:

1) Gofal lliniarol cyffredinol a ddarperir gan weithwyr iechyd proffesiynol mewn lleoliad cyffredinol, e.e. gofal cymunedol ac eilaidd
2) Gofal lliniarol arbenigol a ddarperir gan dimau amlddisgyblaethol sy'n ymwneud yn benodol â gofal lliniarol

**Modelau gwasanaethau:**
- Er mwyn sicrhau cysondeb o ran darpariaeth, dylai Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru gytuno ar y llwybr ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes i'r ardal, yn unol ag arfer gorau
- Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried a ddylid mabwysiadu'r enghreifftiau o arfer gorau, megis model Midhurst a'r model SWAN/Cygnets

**Hyfforddiant:**
- Dylai fod gan bob gweithiwr gofal iechyd a phob gwirfoddolwr, waeth beth fo'u rôl, fynediad i addysg a hyfforddiant ynghylch gofal diwedd oes a phrofedigaeth, gyda'r lefel yn dibynnu ar natur eu rôl ac ar eu cysylltiad â marwolaeth a marw

**Y defnydd a wneir o dechnoleg:**
- Yn ogystal â gofal yn y cartref, mae teleiechyd a chyfleusterau monitro cleifion o bell yn cynnig manteision niferus i gleifion ar draws y sbectrwm gofal iechyd, gan gynnwys y sawl sy'n cael gofal lliniarol

**Cynorthwyo gofalwyr:**
- Dylai partneriaid adolygu'r gwersi a ddysgwyd o ofalu am bobl â dementia a COVID-19 a phobl sydd wedi dioddef profedigaeth, a dylent ystyried a ellir cymhwyso'r gwersi i'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu ar hyn o bryd, neu'u hymgorffori mewn strategaethau perthnasol a/neu gynlluniau trawsnewid gwasanaethau
- Dylai pob amgylchedd lle mae gofal diwedd oes yn digwydd ddarparu lleoedd priodol i gynorthwyo teuluoedd a gofalwyr

**Profedigaeth:**
- Mae strategaethau ar draws y byd yn cynnwys pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned leol, arweinwyr ysbrydol ac arweinwyr eraill er mwyn meithrin capasiti yn y gymuned i gynnig cymorth adeg profedigaeth
- Mabwysiadu polisïau ac arferion cymunedau caredig er mwyn cynorthwyo pobl sydd wedi dioddef profedigaeth
- Dylai fframwaith ar gyfer profedigaeth, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, gael ei gynnwys ym mhob manyleb gwasanaeth berthnasol a'i ymgorffori mewn gweithdrefnau gweithredu safonol ar draws pob gwasanaeth

# 4. Ein llwybr model gwasanaeth

# Datblygu glasbrint model gwasanaeth Hywel Dda ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes

Yn dilyn cyfres o weithdai a gynhaliwyd yn ystod mis Mai 2021, cyfweliadau â rhanddeiliaid yng ngham 1 a chyfweliadau â chleifion a gofalwyr o bob oed, ynghyd â mewnbwn pellach drwy arolygon i gleifion a gofalwyr, rydym wedi datblygu'r model gwasanaeth canlynol i Hywel Dda ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes. (Mae rhagor o wybodaeth am y themâu ymgysylltu â rhanddeiliaid i'w gweld yn Atodiad 2.)






# Gweledigaeth Hywel Dda ar gyfer gwasanaeth gofal lliniarol a gofal diwedd oes

**'Darparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes ardderchog ar draws y gorllewin, sy'n galluogi pobl i gael gofal a marw yn y lleoliad y maent yn ei ffafrio'**

Cymorth o ran gofal lliniarol arbenigol – yn y gymuned a'r ysbyty.

Gofal canolraddol i gynorthwyo pobl pan fydd eu hangen yn mynd yn fwy. Rydym yn sicrhau'r cysur a'r lles gorau posibl – gan gynorthwyo pobl yn eu cartref os oes modd.

Gofal rhagweithiol a chynllunio gofal fel tîm amlddisgyblaethol. Caiff y gofal ei gydlynu gan sicrhau bod yr help iawn yn cael ei roi ar yr adeg iawn.

Gwaith atal, gwaith cynllunio ac addysg yn ein cymunedau.
Cymunedau'n barod i gynorthwyo a helpu.




**Ffactorau allweddol sy'n galluogi gwaith cyflawni:**

- Gweledigaeth, strategaeth a model gwasanaeth rhanbarthol clir ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes, yn unol ag egwyddorion Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru ar gyfer gofal o'r fath
- Trefniadau llywodraethu integredig
- Trefniadau comisiynu strategol a chydweithredol sy'n canolbwyntio ar y cleifion/gofalwyr
- Gweithio ar draws sefydliadau
- Rheoli materion ariannol a pherfformiad ar y cyd

- Comisiynu ar y cyd ar gyfer gofal integredig, gan sicrhau mynediad a darpariaeth deg ar draws y gorllewin
- Cynghreiriau rhwng y Bwrdd Iechyd a darparwyr (gan gynnwys y 3ydd sector), sy'n cyflwyno gwasanaethau i rwydweithiau lleol ac yn galluogi integreiddio yn y rheng flaen
- Rhaglenni a chynlluniau a rennir ar gyfer trawsnewid systemau
- Ystyried systemau risg a budd lleol, alinio cymhellion, a ffurflenni contract newydd

- Darparu gwasanaethau gofal sylfaenol ar y raddfa briodol
- Staff ar draws sefydliadau wedi'u hyfforddi ac yn cydweithio mewn modd integredig ar draws y rhanbarth er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth yn y ffordd orau posibl
- Dehongli data ynghylch iechyd y boblogaeth ac adborth gan gleifion/teuluoedd, dylunio gwasanaethau ar gyfer rhwydweithiau integredig, a manteisio ar gymorth gan wasanaethau ehangach

Ffynhonnell: Egwyddorion Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru 23/10/20

# Sut beth yw da i Hywel Dda – Y llwybr model gwasanaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes

## Gofalu am ein lles corfforol a meddyliol, codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth




## Cael help a chymorth yn gynnar




- Mae ar ofalwyr a chleifion gofal lliniarol angen gwybodaeth glir a hygyrch sy'n eu cysylltu â grwpiau cymheiriaid lleol er mwyn cael cymorth o'r dechrau'n deg.

**Wedi'i ategu gan hyfforddiant i bob aelod o staff**

# Sut beth yw da i Hywel Dda – Y llwybr model gwasanaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes

## Adnabod, asesu a diagnosio

- Galluogi gwasanaethau generig (e.e. gwaith cymdeithasol, gofal yn y cartref, cartrefi gofal, nyrsys ardal, therapi galwedigaethol, ffisiotherapi, ac ati) i gynorthwyo pobl drwy ddiagnosis gofal lliniarol - addysg - pa arwyddion i chwilio amdanynt a beth i'w ddisgwyl




## Byw gyda diagnosis gofal lliniarol/gofal diwedd oes

Tîm amlddisgyblaethol holistaidd = yn darparu cynllun cymorth a lles sefydlog o amgylch y person, sy'n cynnwys:

- Rheolwr achosion
- Gofal cymdeithasol
- Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd
- Nyrsys ardal
- Gweithwyr allweddol / arweinydd technoleg gynorthwyol
- Nyrsys arbenigol, e.e. Admiral, canser, ac ati
- Gofal sylfaenol
- Fferyllfeydd
- Y 3ydd sector
- Iechyd meddwl pobl hŷn
- Cyngor a hyfforddiant yn ôl yr angen gan y Tîm Lles Dementia
- Meddygon ymgynghorol ym maes gofal eilaidd
- Gofal lliniarol arbenigol i oedolion/plant

(D.S. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn)




**Wedi'i ategu gan hyfforddiant i bob aelod o staff**

# Sut beth yw da i Hywel Dda – Y llwybr model gwasanaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes

**Yr angen am fwy o gymorth yn ystod diwrnodau diwedd oes**

- **Gweithredu Fframwaith Addysg a Hyfforddiant yr Alban ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes, sy'n seiliedig ar arfer gorau, a addaswyd ar gyfer gorllewin Cymru** – mae angen i ni ystyried yr anghenion o ran dysgu a datblygu sydd gan bawb y mae diagnosis gofal lliniarol/gofal diwedd oes yn effeithio arnynt mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Maent yn cynnwys cleifion o bob oed, gofalwyr, staff rheng flaen, rheolwyr, comisiynwyr, rheoleiddwyr, ymchwilwyr, perchnogion siopau, cymdogion, ac ati. Bydd hynny'n arwain at bobl wybodus, pobl fedrus a phobl sy'n gallu darparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn

**Tîm amlddisgyblaethol holistaidd = yn darparu cynllun cymorth a lles sefydlog o amgylch y person, sy'n cynnwys:**

- **Rheolwr achosion**
- **Meddygon ymgynghorol ym maes gofal eilaidd**
- **Gofal lliniarol arbenigol i oedolion/plant**
- **Gofal cymdeithasol**
- **Y 3ydd sector**
- **Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd**
- **Nyrsys ardal**
- **Gweithwyr allweddol/ arweinydd technoleg gynorthwyol**
- **Nyrsys arbenigol, e.e. Admiral, canser, ac ati**
- **Gofal sylfaenol**
- **Fferyllwyr**
- **Iechyd meddwl pobl hŷn**
- **Cyngor a hyfforddiant yn ôl yr angen gan y Tîm Lles Dementia**

**(D.S. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn)**




**Wedi'i ategu gan hyfforddiant i bob aelod o staff**

# Sut beth yw da i Hywel Dda – Y llwybr model gwasanaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes

- Mae'r model drafft hwn yn dangos ffordd integredig newydd o ddarparu gwasanaethau. Mae'n seiliedig ar arfer gorau a gwasanaethau sy'n bodoli eisoes yng ngorllewin Cymru.
- Dylai'r model gwasanaeth gael ei ategu gan gyfres y cytunwyd arni o egwyddorion darparu gwasanaeth y mae angen eu datblygu drwy'r ffrwd waith 'Mae'r staff i gyd yn barod i ofalu' (gweler adran 5).

**Y cymorth yn cynyddu gyda'r anghenion**
**Arbenigwyr yn dylanwadu ar draws y llwybr**










**Wedi'i ategu gan hyfforddiant i bob aelod o staff**

# Camau nesaf

**Cwblhau'r strategaeth:**

- Ceisio **adborth ynghylch y strategaeth a'r weledigaeth a'r llwybr model ar gyfer y gwasanaeth**
- **Cwblhau'r weledigaeth a'r llwybr model gwasanaeth** a'u rhannu ag eraill fel bod pob partner yn gwybod i ba gyfeiriad y mae gwasanaethau gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn mynd yn y gorllewin
- **Diweddaru'r cynllun rhaglen â datblygiadau newydd o ran gwasanaeth** sy'n ofynnol er mwyn rhoi'r weledigaeth a'r llwybr model gwasanaeth ar waith
- **Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith** i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r mentrau newydd o ran gwasanaeth, gan sicrhau bod pob menter newydd yn mabwysiadu dull rhaglen o weithredu, gan adrodd yn rheolaidd ynghylch cynnydd wrth y Grŵp Llywio ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes

**Gweithredu'r rhaglen:**

- Byddwn **yn datblygu ein rhaglen waith** gan gadw llygad barcud ar Fframwaith Clinigol Cenedlaethol GIG Cymru sydd wrthi'n cael ei ddatblygu; yn y Fframwaith, mae gofal diwedd oes wedi cael statws Rhaglen Genedlaethol a bydd y Safonau Dementia yn cael eu cyflwyno
- **Clustnodi adnoddau i sefydlu a rheoli'r rhaglen waith** ar draws partneriaid
- Byddwn yn adolygu'r rhaglen waith gyfredol ac yn diweddaru'r cynllun rhaglen, **yn blaenoriaethu prosiectau ac yn diwygio amserlenni** er mwyn sicrhau bod cynllun realistig ar waith, y mae modd ei gyflawni. Y broses a ddefnyddir ar gyfer cyflawni fydd y dull rheoli ffrydiau gwaith
- Byddwn yn **nodi uwch-berchnogion cyfrifol ychwanegol ar gyfer ffrydiau gwaith** er mwyn sbarduno gwaith gyda chymorth y Swyddfa Rheoli Prosiectau a darparu perchnogaeth ac atebolrwydd i gyflawni
- Bydd **diweddariadau rheolaidd ynghylch cynnydd** yn dal i gael eu darparu yng nghyfarfodydd misol y Grŵp Llywio ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes

**Gweithredu'r strategaeth newydd ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes**

# 5. Ein dull o weithredu'r model gwasanaeth newydd

# Gweithredu'r model gwasanaeth newydd gan ddefnyddio fframwaith cenedlaethol Lloegr o uchelgeisiau ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes

O ystyried bod Egwyddorion Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes Gorllewin Cymru yn ymgorffori'r fframwaith uchod o uchelgeisiau, mae'n gwneud synnwyr i ni alinio'r gwaith o weithredu'r model gwasanaeth newydd â'r 6 uchelgais a'r 8 conglfaen.

Mae'n bwysig cydnabod bod yna fodel gwasanaeth Cymru Gyfan ar gyfer gofal lliniarol arbenigol a dull tîm o ddarparu gwasanaethau i blant, a ariennir yn ganolog, ac y bydd y gwasanaeth hwn, er yn rhan o dîm canolog Cymru, yn cael ei ddatblygu'n lleol drwy'r mentrau lleol a amlinellir yn yr argymhellion canlynol.




Mae rhagor o wybodaeth am y conglfeini i ategu'r gwaith o wireddu'r uchelgeisiau ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes i'w chael yma: https://endoflifecareambitions.org.uk/wp-content/uploads/2015/09/Ambitions-for-Palliative-and-End-of-Life-Care.pdf

# Uchelgais 1

## Caiff pob person ei ystyried yn unigolyn

*Rwyf i, a'r bobl sy'n bwysig i fi, yn cael cyfleoedd i gael sgyrsiau gonest, gwybodus ac amserol ac i wybod y gallwn farw'n fuan. Gofynnir i fi beth sydd bwysicaf i fi.*

*Mae'r sawl sy'n gofalu amdanaf yn gwybod hynny ac yn gweithio gyda fi i wneud yr hyn sy'n bosibl.*

**Yr hyn yr ydym yn ei wneud a'n cynlluniau yn y maes hwn**

| | |
|---|---|
| **Sgyrsiau gonest** | • Byddwn yn adolygu Fframwaith Hyfforddiant yr Alban ar gyfer Gofal Lliniarol ac yn ystyried ei fabwysiadu ar draws y rhanbarth. Yn unol ag Archwiliad Cenedlaethol o Ofal Diwedd Oes 2019, byddwn yn datblygu rhaglen hyfforddiant sy'n deillio o'r fframwaith ac yn ei chyflwyno i bob aelod o staff ar draws y rhanbarth.<br>• Byddwn yn adolygu'r model SWAN/Cygnets ac yn ystyried ei addasu a'i fabwysiadu ym maes gofal eilaidd ac yn y gymuned (gweler Atodiad 4). Byddwn hefyd yn datblygu cynllun gweithlu ar gyfer pob oed er mwyn hybu cyflawni, sy'n cyd-fynd â dull gweithredu Cymru Garedig ac a fydd yn darparu hyfforddiant pellach er mwyn sicrhau bod gan staff ar draws y system y sgiliau a'r hyder i gael sgyrsiau am farwolaeth ag unigolion o bob oed, a'u teuluoedd a'u gofalwyr. |
| **Disgwyliadau clir** | • Byddwn yn rhoi gwybodaeth i unigolion, teuluoedd a gofalwyr a byddwn yn datblygu llyfryn gwybodaeth i ofalwyr, sy'n cynnwys gwybodaeth a chyngor ynghylch beth i'w ddisgwyl ar ddiwedd oes rhywun. |
| **Helpu pobl i gymryd rheolaeth**<br>**Systemau ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar y claf**<br>**Mynediad i ofal cymdeithasol Gofal integredig (cydgysylltiedig)** | • Yn unol ag argymhellion Archwiliad Cenedlaethol o Ofal Diwedd Oes 2019:<br>  • Byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant ynghylch cynllunio gofal ymlaen llaw, i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, y 3ydd sector a staff cartrefi gofal, gan bwysleisio pwysigrwydd cynnwys teuluoedd a gofalwyr yn y sgyrsiau hyn a'u galluogi i gymryd rheolaeth ar eu cynllun gofal.<br>  • Gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, byddwn yn gweithredu Cynlluniau Gofal Ymlaen Llaw ac at y Dyfodol Cymru Gyfan pan fyddant yn barod. Byddwn hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o fabwysiadu'r ffurflen ReSPECT yn rhan o Gynlluniau Gofal Ymlaen Llaw (gweler Atodiad 5) ar draws y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol, a datblygu cynllun gofal canolog Hywel Dda er mwyn rhannu gwybodaeth. |
| **Gofal diwedd oes da, gan gynnwys mynediad i wasanaethau profedigaeth** | • Byddwn yn adolygu mynediad i wasanaethau profedigaeth ac yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau er mwyn sicrhau mynediad teg ar gyfer pawb.<br>• Byddwn yn ystyried canlyniad adolygiad o wasanaethau profedigaeth Cymru gyfan ac yn gweithredu'r argymhellion. |

# Uchelgais 2

**Mae pob person yn cael mynediad teg i ofal**

*Rwy'n byw mewn cymdeithas lle rwy'n cael gofal diwedd oes da, waeth pwy ydw i, ble'r ydw i'n byw neu beth yw amgylchiadau fy mywyd.*

**Yr hyn yr ydym yn ei wneud a'n cynlluniau yn y maes hwn**

| | |
|---|---|
| **Partneriaethau cymunedol** | • Byddwn yn ceisio deall sefyllfaoedd lle mae'n bosibl nad yw cymunedau'n gallu cael mynediad i ofal lliniarol a gofal diwedd oes, a byddwn yn ceisio deall unrhyw rwystrau sy'n bodoli.<br>• Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a bylchau mewn gwasanaethau, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i oresgyn rhwystrau, e.e. mynediad i feddyginiaeth a gyrwyr chwistrell. |
| **Ymrwymiad diysgog i sicrhau tegwch** | • Drwy'r ffrwd waith berthnasol, byddwn yn adolygu pa elfennau o'r gwasanaeth cyfredol i oedolion (gan gynnwys rôl fferyllwyr) sy'n cyd-fynd â model Midhurst neu sydd ar y blaen i'r model hwnnw (gweler Atodiad 6), a byddwn yn sicrhau bod cysondeb rhwng dulliau cyflawni ar draws y rhanbarth, a fydd yn cynnwys datblygu gweithdrefnau gweithredu safonol rhanbarthol ar gyfer y gwasanaeth.<br>• Byddwn yn mynd i'r afael â mynediad anghyson i offer cymunedol ar draws Hywel Dda ar gyfer cleifion sy'n cael gofal lliniarol a gofal diwedd oes.<br>• Byddwn yn sicrhau dull cyson o weithredu'r model SWAN/Cygnets, a addaswyd, ar draws y rhanbarth ar gyfer plant ac oedolion.<br>• Byddwn yn cytuno ar ddull rhanbarthol cyson o adnabod pwy sy'n cyrraedd diwedd eu hoes.<br>• Byddwn yn monitro gwybodaeth er mwyn deall ble y mae pobl yn marw ac a yw dymuniadau pobl yn cael eu gwireddu. |
| **Asesiad o anghenion ar sail y boblogaeth**<br>**Mesur canlyniadau gan ganolbwyntio ar y bobl**<br>**Defnyddio data i sbarduno newid** | • Rydym wedi cynnal asesiad ar sail anghenion y boblogaeth, a byddwn yn parhau i weithio tuag at sefydlu dull Bwrdd Iechyd o gasglu data a chanlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn unol ag awydd Cymru gyfan i fabwysiadu mesurau canlyniadau OACC ar gyfer gofal lliniarol arbenigol. Bydd hynny'n cael ei ymgorffori ym mhroses ein system adrodd ganolog, a byddwn yn gallu mesur canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Byddwn yn alinio ein gwaith â Thîm Gofal Lliniarol Arbenigol i Blant Cymru Gyfan er mwyn sicrhau trefniadau adrodd ar lefel ganolog sy'n berthnasol i Gymru gyfan.<br>• Gan adeiladu ar yr ymchwil i arfer gorau, byddwn yn parhau i feithrin dealltwriaeth a gweithio gyda chydweithwyr er mwyn adnabod a rhannu arfer gorau ym maes gofal diwedd oes. |

# Uchelgais 3

## Sicrhau'r cysur a'r lles gorau posibl

*Caiff fy ngofal ei adolygu'n rheolaidd a gwneir pob ymdrech i sicrhau fy mod yn cael y cymorth, y gofal a'r driniaeth a allai fod yn ofynnol er mwyn fy helpu i fod mor gysurus a didrallod ag sy'n bosibl.*

**Yr hyn yr ydym yn ei wneud a'n cynlluniau yn y maes hwn**

| | |
|---|---|
| **Cydnabod trallod a rhoi sylw iddo, beth bynnag fo'i achos** | • Bydd yr hyfforddiant a roddir i staff a gofalwyr yn cynnwys hyfforddiant ynghylch adnabod arwyddion o drallod.<br>• Yn rhan o'n dull o gasglu data, byddwn yn ystyried addasu Holiadur Profiad GIG Cymru ar gyfer y sawl sy'n cael gwasanaethau gofal lliniarol a gofal diwedd oes; bydd hynny'n ein helpu i ddeall a yw anghenion o ran cysur a lles (sy'n cynnwys anghenion corfforol, seicolegol, emosiynol a chymdeithasol) yn cael eu diwallu ym maes gofal eilaidd. |
| **Rheoli symptomau** | • Yn unol â'r Archwiliad Cenedlaethol o Ofal Diwedd Oes, byddwn yn cynyddu hyfforddiant ac addysg ynghylch rheoli symptomau ar gyfer pob aelod o staff (yn enwedig gofalwyr a staff nad ydynt yn staff arbenigol), a byddwn hefyd yn ymestyn y gwaith sydd eisoes ar y gweill o safbwynt cael meddyginiaethau'n brydlon ym maes gofal eilaidd ac yn y gymuned.<br>• Byddwn yn datblygu gofal seibiant hyblyg gyda phartneriaid.<br>• Byddwn yn ceisio cynyddu hyfforddiant ac addysg ynghylch defnyddio'r Ddogfen Penderfyniadau am Ofal er mwyn hybu gofal yn ystod diwrnodau olaf bywyd unigolyn. |
| **Mynediad i wasanaethau a chymorth arbenigol** | • Byddwn yn cynnal ymarfer modelu galw a chapasiti er mwyn egluro angen cleifion a'r gweithlu yng nghyswllt pob darpariaeth o ran gofal lliniarol arbenigol. Bydd hynny'n cynnwys modelu'r galw am welyau gofal lliniarol arbenigol ym maes gofal eilaidd.<br>• Er mwyn sicrhau mynediad teg, gan gynnwys mynediad i'r ysbyty gartref, byddwn yn darparu gofal lliniarol arbenigol i oedolion ar lefel ranbarthol/y Bwrdd Iechyd ac yn ystyried defnyddio dull gweithredu tebyg i ddull y Tîm Lles Dementia rhanbarthol a Thîm Gofal Lliniarol Arbenigol a Gofal Diwedd Oes i Blant Cymru Gyfan, fel bod arbenigwyr yn darparu hyfforddiant, cyngor a chymorth ynghylch rheoli symptomau i staff nad ydynt yn arbenigwyr, e.e. staff cartrefi gofal, therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion, nyrsys ardal a staff gofal cymdeithasol. Mae angen mynd ati'n syth i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol, gofalwyr a chleifion yn gallu cael mynediad bob awr o'r dydd a'r nos i gyngor a gwybodaeth.<br>• Bydd gweithredu'r model SWAN/Cygnets a addaswyd yn golygu cynnwys llinell gyngor a chymorth, sydd ar agor bob awr o'r dydd a'r nos, ar gyfer gweithwyr proffesiynol a gofalwyr, a fydd yn rhoi mynediad i gyngor arbenigol a chyffredinol ac i gyngor ynghylch profedigaeth. Mae Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol i Blant Cymru Gyfan hefyd ar fin cyflwyno gwasanaeth tebyg ar gyfer y sawl sy'n gweithio gyda phlant ar draws Cymru. |

# Uchelgais 4

## Caiff y gofal ei gydlynu

*Rwy'n cael yr help iawn ar yr adeg iawn gan y bobl iawn. Mae gen i dîm o'm hamgylch sy'n gwybod beth yw fy anghenion a'm cynlluniau ac sy'n cydweithio er mwyn fy helpu i'w diwallu a'u cyflawni. Rwyf bob amser yn gallu cyrraedd rhywun a fydd yn gwrando ac yn ymateb unrhyw awr o'r dydd neu'r nos.*

**Yr hyn yr ydym yn ei wneud a'n cynlluniau yn y maes hwn**

| | |
|---|---|
| **Cofnodion a rennir** | • Byddwn yn cydweithio i greu cynllun gofal a rennir sy'n hygyrch ar draws systemau partneriaid (ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac yn y 3ydd sector) ac y mae'r claf a'r gofalwr yn berchen arno. |
| **Ymateb ar draws system gyfan** | • Byddwn yn gweithio fel partneriaid cyfartal gyda phractisiau meddygon teulu a'r sector gofal sylfaenol, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a'r sector gofal eilaidd, er mwyn eu galluogi i ddeall sut y gallant gynnig y cymorth gorau o ran gofal diwedd oes.<br>• Os yw'n briodol, byddwn yn cydweithio â'n partneriaid i fapio cyfleoedd o ran gwasanaethau dydd ar draws y rhanbarth, gan adnabod unrhyw fylchau a chydweithio er mwyn mynd i'r afael â nhw.<br>• Byddwn yn datblygu dull cyson o ddarparu timau amlddisgyblaethol ar draws rhanbarth Hywel Dda, a byddwn yn cynorthwyo timau amlddisgyblaethol ym maes gofal sylfaenol drwy sicrhau cynrychiolaeth o blith fferyllwyr ym maes gofal lliniarol a gofal diwedd oes, er mwyn rhoi cyngor a help i'r timau.<br>• Bydd y tîm gofal lliniarol arbenigol i blant yn parhau'n rhan o dîm amlddisgyblaethol gofal lliniarol arbenigol i blant Cymru gyfan, a bydd yn rhannu arfer gorau. |
| **Rolau a chyfrifoldebau clir** | • Bydd manylion a rôl y tîm gofal lliniarol arbenigol i oedolion yn cael eu hegluro ar ôl mapio gwasanaethau ar sail model Midhurst a datblygu gweithdrefn weithredu safonol ranbarthol wedyn ar gyfer gofal lliniarol arbenigol. Bydd hynny'n cynnwys mapio capasiti a'r angen i wahanol leoliadau ddarparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes.<br>• Bydd gofal lliniarol arbenigol i blant yn cael ei wella gan y model SWAN/Cygnets a addaswyd, a bydd gweithdrefn weithredu safonol glir yn cael ei datblygu gan sicrhau llinellau atebolrwydd, trefniadau adrodd, a rhyngweithio â gwasanaeth gofal lliniarol arbenigol i blant Cymru gyfan. |
| **Pawb yn bwysig** | • Bydd datblygu gweithdrefn weithredu safonol ar gyfer plant sy'n pontio i wasanaethau oedolion yn gwella'r gwaith o gydlynu gofal.<br>• Bydd datblygu gweithdrefn weithredu safonol ar gyfer y tîm gofal lliniarol arbenigol i oedolion yn gwella'r gwaith o gydlynu'r sawl sydd â chyflyrau cronig, gan gynnwys y sawl sy'n byw gyda dementia ac anabledd dysgu. |
| **Parhad mewn partneriaeth** | • Byddwn yn gweithio pryd bynnag y bo modd i greu gwasanaeth gofal lliniarol a gofal diwedd oes sy'n gyson ar draws y rhanbarth.<br>• Byddwn yn cydweithio ar draws y system gan adolygu ein prosesau er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gwasanaethau cydgysylltiedig. |

# Uchelgais 5

## Mae'r staff i gyd yn barod i ofalu

*Ble bynnag yr ydw i, mae staff iechyd a gofal yn cynnig empathi, sgiliau ac arbenigedd ac yn gofalu amdanaf yn gymwys ac yn hyderus gan ddangos tosturi.*

**Yr hyn yr ydym yn ei wneud a'n cynlluniau yn y maes hwn**

| | |
|---|---|
| **Ethos proffesiynol**<br>**Yn barnu ar sail gwybodaeth**<br>**Ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth** | • Mae'r staff i gyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac yn y 3ydd sector yn defnyddio dull holistaidd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gynnal asesiadau, cynllunio gofal a chynnal adolygiadau. Bydd anghenion y gofalwr yn cael eu hystyried bob cam o'r ffordd.<br>• Bydd y Bwrdd Iechyd yn ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol i blant ac oedolion yn cael amser a neilltuir i gyflwyno addysg, a bydd yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes gofal sylfaenol a gofal eilaidd er mwyn cynorthwyo i ryddhau staff cyffredinol fel y gallant fynychu hyfforddiant o'r fath.<br>• Bydd y gweithdrefnau gweithredu safonol newydd ar gyfer timau gofal lliniarol arbenigol i oedolion a phlant yn cynnwys yr angen i staff helpu i hyfforddi staff cyffredinol yn y gymuned ac ym maes gofal eilaidd ynghylch rhai o'r agweddau mwy cymhleth ar ofal lliniarol, er mwyn gallu darparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes o safon. |
| **Cefnogaeth a gwytnwch** | • Drwy fabwysiadu a gweithredu Fframwaith Hyfforddiant yr Alban ar gyfer Gofal Lliniarol, bydd y staff i gyd yn cael hyfforddiant ffurfiol ynghylch deddfwriaeth ym maes gofal lliniarol a gofal diwedd oes ac ynghylch Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Bydd hyfforddiant ffurfiol ynghylch gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn cynnwys hyfforddiant ynghylch sgyrsiau anodd, negodi a gwytnwch cyffredinol.<br>• Bydd yn ofynnol i dimau gadw cofnod o hyfforddiant, sy'n nodi'r sawl sydd wedi cael hyfforddiant. |
| **Yn defnyddio technoleg newydd** | • Byddwn yn adeiladu ar yr hyn a nodwyd yn adroddiad cam un ynghylch y defnydd o dechnoleg, e.e. cynnal asesiadau ac ymgyngoriadau rhithwir/o bell, monitro cleifion o bell, ac rydym wrthi'n adolygu'r meysydd lle gallai fod angen rolau mwy arbenigol. Mae angen i'r rheini gael eu datblygu gyda darparwyr lleol, ond gallent gynnwys rolau arbenigol ym maes gofal diwedd oes ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. |
| **Llywodraethu gweithredol** | • Yn unol ag argymhellion yr Archwiliad Cenedlaethol o Ofal Diwedd Oes, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo recriwtio arweinydd clinigol i weithio'n rhan o dîm o dri er mwyn goruchwylio'r broses o weithredu'r strategaeth newydd, drwy gyllidebau cyfun rhanbarthol.<br>• Dylai'r Bwrdd Iechyd benodi fferyllydd a enwir i gynorthwyo'r gwaith o wella'r modd y caiff meddyginiaethau eu rheoli ar gyfer cleifion sy'n ddifrifol sâl ac sy'n marw, yn unol â Chynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru a GIG Cymru ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes 2017. |

# Uchelgais 6

**Mae pob cymuned yn barod i helpu**

*Mae marwolaeth a marw'n anochel. Rhaid bod gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn flaenoriaeth. Bydd ansawdd a hygyrchedd y gofal hwn yn effeithio ar bob un ohonom, a rhaid ei wella'n gyson er mwyn pob un ohonom. Rhaid rhoi sylw i anghenion pobl o bob oed sy'n byw gyda'r ffaith eu bod yn marw ac sy'n byw gyda marwolaeth a phrofedigaeth, a rhaid rhoi sylw i anghenion eu teuluoedd, eu gofalwyr a'u cymunedau gan ystyried eu blaenoriaethau, eu dewisiadau a'u dymuniadau.*

**Yr hyn yr ydym yn ei wneud a'n cynlluniau yn y maes hwn**

| | |
|---|---|
| **Cymunedau caredig a chydnerth Gwirfoddoli** | • Byddwn yn cymryd camau i gefnogi Siarter Cymru Garedig https://compassionate.cymru/cy/ a phrosiect uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i sicrhau mai Cymru yw Gwlad Garedig gyntaf y byd. Ar lefel cymdogaeth a stryd, byddwn yn ffurfio timau hyblyg sy'n gwneud yn fawr o ofal meddygol a gofal cymdeithasol ffurfiol drwy adnabod a galluogi cymorth cymunedol mewn ffyrdd sy'n mynd i'r afael yn wirioneddol â'r cwestiwn **'Beth sydd bwysicaf i chi?'**. Bydd hynny'n ei gwneud yn bosibl i'r model SWAN/Cygnets a addaswyd gael ei gyflwyno ar lefel cymdogaeth. |
| **Cymorth ymarferol** | • Byddwn yn cynorthwyo'r fenter cymunedau caredig ac yn archwilio ffyrdd o weithredu Cymru Garedig ar draws Hywel Dda. Byddwn yn cydgysylltu ein gwasanaethau pryd bynnag y bo modd er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a lleihau achosion o ddyblygu ymdrech.<br>• Fel y nodwyd yn ein gweithdai i randdeiliaid, mae angen dechrau sgyrsiau'n gynt am farwolaeth a marw. Byddwn yn archwilio gyda phartneriaid beth y gallwn ei wneud i gynnig y cymorth gorau i athrawon a staff sy'n gweithio ym maes gwasanaethau i blant a phobl ifanc, er mwyn dechrau sgyrsiau â phlant a phobl ifanc. |
| **Ymwybyddiaeth y cyhoedd** | • Byddwn yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o farwolaeth a marw. Un ffordd o wneud hynny fydd drwy Wythnos Codi Ymwybyddiaeth 'Dying Matters' – sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd bod mewn lle da i farw #InAGoodPlace. https://www.dyingmatters.org/ |

# Gwireddu uchelgeisiau'r strategaeth drwy reoli rhaglen

Gan adeiladu ar ddull rhaglen newydd o ymdrin â gofal lliniarol a gofal diwedd oes, a weithredir gan ddilyn canlyniadau allweddol y Cam Darganfod, bydd cam nesaf y gwaith yng nghyswllt gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn digwydd dros gyfnod o 5 mlynedd, drwy drawsnewid gwasanaethau mewn modd integredig a sicrhau gwelliant parhaus, gan ddefnyddio dull sy'n golygu sefydlu ffrydiau gwaith allweddol ac ymgysylltu'n drylwyr â rhanddeiliaid.



# Dull o weithredu uchelgeisiau'r strategaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes a'r model newydd o ofal

Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Hywel Dda ym maes Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes



# Ffrydiau gwaith a gynigir er mwyn gweithredu'r strategaeth ar gyfer

Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau ym maes Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes




**Caiff gofal lliniarol a gofal diwedd oes eu trawsnewid dros gyfnod o 5 mlynedd.**

# Dull cyflawni a gynigir: Rheoli Portffolios

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn cyd-fynd â'r Fframwaith Cenedlaethol yn Lloegr 'Ambitions for Palliative and EoLC' ac Archwiliad Cenedlaethol o Ofal Diwedd Oes 2019, ac maent yn adeiladu ar y rhaglen gychwynnol ar gyfer gwelliant parhaus. Bydd unrhyw waith sy'n weddill o'r rhaglen gwelliant parhaus yn cael ei gyfuno â'r ffrwd waith briodol yn y rhaglen waith newydd hon. Bydd y blaenoriaethau ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn cael eu goruchwylio gan y tîm o dri yng ngrŵp llywio'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes, a bydd pob portffolio yn cael ei arwain gan uwch-berchennog cyfrifol o bob rhan o'r system. Fodd bynnag, bydd y rhaglen waith gyfan yn cael ei goruchwylio hefyd gan Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Bydd angen clustnodi adnoddau dros gyfnod y rhaglen er mwyn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau tra bydd staff rheng flaen yn gweithio i ddylunio a datblygu'r gwasanaethau.

| | Trawsnewid gofal lliniarol a gofal diwedd oes | Datblygu a hyfforddi'r gweithlu | Data a gwybodaeth fusnes |
|---|---|---|---|
| **Nod** | Gweithredu blaenoriaethau sy'n deillio o'r strategaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes, sy'n ymwneud â sicrhau bod pob person yn cael mynediad teg i ofal. | Gweithredu blaenoriaethau sy'n deillio o'r strategaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes, sy'n ymwneud â sicrhau'r cysur a'r lles gorau posibl. | Gweithredu blaenoriaethau sy'n deillio o'r strategaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes, sy'n ymwneud â sicrhau dull unffurf o gasglu gwybodaeth fusnes a chanlyniadau. |
| **Meysydd â blaenoriaeth** | • Mapio gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol a datblygu gwasanaeth gofal lliniarol arbenigol rhanbarthol newydd, sy'n cynnwys gweithdrefn weithredu safonol ar gyfer pontio rhwng gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion. Bydd y defnydd o dechnoleg yn cael ei ymgorffori yn y gwasanaeth newydd.<br>• Datblygu model gofal lliniarol a gofal diwedd oes ar gyfer y rhanbarth gydag achos busnes i'w ategu, gan ddefnyddio egwyddorion arfer gorau o'r model SWAN a model Midhurst.<br>• Datblygu gwasanaethau profedigaeth yn unol â fframwaith gwasanaethau profedigaeth Cymru gyfan.<br>• Gweithredu argymhellion y strategaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes ynghylch trawsnewid gwasanaethau. | • Addasu Fframwaith Hyfforddiant yr Alban ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes a datblygu cynllun gweithredu.<br>• Datblygu cynllun gweithlu i ategu'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau.<br>• Parhau â hyfforddiant ynghylch cynllunio gofal ymlaen llaw.<br>• Gweithredu Cynlluniau Gofal Ymlaen Llaw ac at y Dyfodol Cymru Gyfan pan fyddant yn barod, a datblygu cynllun gofal canolog (ym maes eiddilwch, dementia a gofal lliniarol a gofal diwedd oes).<br>• Gweithredu blaenoriaethau'r strategaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes, sy'n ymwneud â datblygu a hyfforddi'r gweithlu. | • Modelu anghenion y boblogaeth, y gweithlu, a galw a chapasiti ar gyfer gwasanaeth gofal lliniarol arbenigol rhanbarthol newydd gydag achos busnes i'w ategu.<br>• Data'n sbarduno newid – datblygu dangosfwrdd adrodd a datblygu disgrifiad swydd newydd ar gyfer rôl ddadansoddi ym maes a gofal lliniarol a gofal diwedd oes.<br>• Gweithredu blaenoriaethau'r strategaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes, sy'n ymwneud â data a gwybodaeth fusnes. |

# Dull cyflawni a gynigir: Rheoli Portffolios



# Camau nesaf

**Cwblhau'r strategaeth:**

- Ceisio **adborth ynghylch y strategaeth a'r weledigaeth a'r llwybr model ar gyfer y gwasanaeth**
- **Cwblhau'r weledigaeth a'r llwybr model gwasanaeth** a'u rhannu ag eraill fel bod pob partner yn gwybod i ba gyfeiriad y mae gwasanaethau gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn mynd yn y gorllewin
- **Diweddaru'r cynllun rhaglen â datblygiadau newydd o ran gwasanaeth** sy'n ofynnol er mwyn rhoi'r weledigaeth a'r llwybr model gwasanaeth ar waith
- **Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith** i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r mentrau newydd o ran gwasanaeth, gan sicrhau bod pob menter newydd yn mabwysiadu dull rhaglen o weithredu, gan adrodd yn rheolaidd ynghylch cynnydd wrth y Grŵp Llywio ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes

**Gweithredu'r rhaglen:**

- Byddwn **yn datblygu ein rhaglen waith** gan gadw llygad barcud ar Fframwaith Clinigol Cenedlaethol GIG Cymru sydd wrthi'n cael ei ddatblygu; yn y Fframwaith, mae gofal diwedd oes wedi cael statws Rhaglen Genedlaethol a bydd y Safonau Dementia yn cael eu cyflwyno
- **Clustnodi adnoddau i sefydlu a rheoli'r rhaglen waith** ar draws partneriaid
- Byddwn yn adolygu'r rhaglen waith gyfredol ac yn diweddaru'r cynllun rhaglen, **yn blaenoriaethu prosiectau ac yn diwygio amserlenni** er mwyn sicrhau bod cynllun realistig ar waith, y mae modd ei gyflawni. Y broses a ddefnyddir ar gyfer cyflawni fydd y dull rheoli ffrydiau gwaith
- Byddwn yn **nodi uwch-berchnogion cyfrifol ychwanegol ar gyfer ffrydiau gwaith** er mwyn sbarduno gwaith gyda chymorth y Swyddfa Rheoli Prosiectau a darparu perchnogaeth ac atebolrwydd i gyflawni
- Bydd **diweddariadau rheolaidd ynghylch cynnydd** yn dal i gael eu darparu yng nghyfarfodydd misol y Grŵp Llywio ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes

**Gweithredu'r strategaeth newydd ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes**

# Cysylltiadau


| | | |
|---|---|---|
| Martin Wilson | martin.wilson@attain.co.uk | 07710 744391 |
| Su Gordon-Graham | su.gordon-graham@attain.co.uk | 07717 035647 |
| Adele Yemm | adele.yemm@attain.co.uk | 07766 681051 |
| Cherie Cope | cherie.cope@Attain.co.uk | 07787 427341 |